

Amlinelliad Dros Dro o'r Cwmpas: M8

Bydd y modiwl hwn yn archwilio effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.¹Bydd y modiwl yn ystyried effaith y pandemig ar draws y gymdeithas gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau² ac o amrediad amrywiol o gefndiroedd ethnig ac economaidd-gymdeithasol. Bydd yn cynnwys archwiliad o'r penderfyniadau a wneir yn y meysydd a nodir isod i'r graddau y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, effaith y penderfyniadau hynny ar blant a phobl ifanc ac effaith ehangach a hirdymor y pandemig ar blant a phobl ifanc gan gynnwys mewn perthynas â darpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar (gan gynnwys addysg bellach a/neu uwch, prentisiaethau neu hyfforddiant), iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y meysydd i'w cwmpasu yn y modiwl hwn yn cynnwys:

1. I ba raddau roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw barodrwydd a chynllunio ar gyfer pandemig.
2. I ba raddau roedd plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig o ran cymhwysio Ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol (NPIs) ac effaith y penderfyniadau hynny.
3. Effaith y pandemig ar addysg plant a phobl ifanc a'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ar eu cyfer (gan gynnwys addysg bellach a/neu uwch, prentisiaethau).
4. Effaith y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc, eu lles, eu datblygiad, eu bywydau teuluol ac ar eu mynediad at wasanaethau gofal iechyd.
5. Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill sydd â rôl mewn cefnogi diogelwch plant ac ymgysylltu â nhw. Bydd hyn yn cynnwys plant sy'n wynebu risg, plant y mae eu teuluoedd yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr ifanc, y rhai sydd yng ngofal awdurdodau lleol, mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
6. Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol gan gynnwys y rhai yn yr ystâd dalfeydd ieuencid, diffynyddion a throseddwyr ifanc a'r rhai yr oedd eu rhieni neu brif ofalwyr yn y ddalfa yn ystod y pandemig;
7. Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system fewnfudo.
8. Effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc mewn perthynas â'u mynediad i'r rhyngwrwd, cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau ar-lein a'u defnydd ohonynt.

¹ At ddibenion y modiwl hwn, diffinnir "plentyn" fel unigolyn rhwng 0 a 18 oed.

Bydd "person ifanc" yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

Roedd yr unigolyn a) yn gadael gofal rhwng 18 a 25 oed; neu b) ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau (hyd at 25 oed); neu c) yn 18 i 25 oed ac wedi mynychu addysg bellach a/neu uwch a/neu hyfforddiant; neu d) rhwng 18 a 25 oed ac yng ngofal y wladwriaeth.

² Defnyddir y term "anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau" yn eang a'i fwriad yw cwmpasu plant â SEND (Lloegr a Gogledd Iwerddon), anghenion cymorth ychwanegol (yr Alban) a/neu anghenion dysgu ychwanegol (Cymru).